

Y Cyngor Optegol Cyffredinol
Ffurflen Ymchwilio

Dyma'r ffurflen i chi ei defnyddio i gwyno i'r Cyngor Optegol Cyffredinol (y GOC) am rywun sydd wedi ei gofrestru gyda ni. Gallwch chi wirio a ydy rhywun wedi ei gofrestru gyda ni neu beidio yn **www.optical.org** neu ffoniwch 020 7580 3898.

Cyn llenwi'r ffurflen hon dylech chi ddarllen ein llyfryn **'Sut i gwyno am optegydd'**. Dylech chi fod yn ymwybodol hefyd os bydd eich cwyn am gost gwasanaeth neu gost unrhyw sbectol neu lensys cyffwrdd, dylech chi gysylltu â Gwasanaeth Cwynion Defnyddwyr Optegol ar 0844 800 5071.

Llenwch y ffurflen hon mewn inc glas neu ddu, mewn PRIFLYTHRENNAU, gan roi cymaint o fanylion ag y gallwch chi a'i hanfon at: Fitness to Practise, General Optical Council, 41 Harley Street, London W1G 8DJ. Os hoffech chi gael mwy o wybodaeth am sut rydym yn delio â chwynion, ewch i **www.optical.org** neu cysylltwch â ni ar 020 7580 3898..

Ein cyfeirnod

Eich cyfeirnod

Eich enw llawn (gan gynnwys teitl)

Eich cyfeiriad (gan gynnwys y cod post)

Eich rhif ffôn

Eich rhif ffôn symudol (os yw'n well gennych i ni gysylltu â chi ar y rhif hwnnw)

Eich cyfeiriad e-bost (os ydych yn gwirio'ch cyfrif e-bost yn rheolaidd)

Enw'r optometrydd neu optegydd dosbarthu (os ydych chi'n ei wybod) rydych yn cwyno amdano/amdani

Cyfeiriad gwaith yr optometrydd neu optegydd dosbarthu (gan gynnwys y cod post)

Oes gennych chi unrhyw ddogfennau (er enghraifft presgripsiynau neu lythyrau) sy'n gysylltiedig â'ch cwyn? Os felly, rhestrwch nhw yn y blwch isod ac anfonwch gopïau ohonyn nhw atom ni.

A welodd neu a glywodd rhywun arall y pethau rydych yn cwyno amdanyn nhw? Os felly, ysgrifennwch eu henwau yn y blwch isod ac esboniwch eu rhan nhw.

Ydych chi wedi cwyno am hyn i unrhyw gorff arall? Os ydych chi, dwedwch wrthym ni ba gorff rydych chi wedi cwyno a rhowch fanylion byr beth sydd wedi digwydd i'w gŵyn honno. Hefyd anfonwch gopïau o unrhyw lythyron rhyngoch chi a'r corff hwnnw atom ni.

Disgrifiwch eich cwyn mor llawn â phosibl. Esboniwch yn union beth ddigwyddodd, ble y digwyddodd, a'r dyddiadau pan ddigwyddodd. Os ydych yn cwyno am fwy nag un optegydd cofrestredig, esboniwch ran pob person. Parhewch ar ddalen ar wahân os oes angen.

Datganiad a chaniatâd i ddatgelu

Er mwyn delio â'ch cwyn bydd angen i ni roi ei manylion i'r person rydych yn cwyno amdano/amdani a'u cyflogwr. Llofnodwch a dyddiwch y blychau isod i roi eich caniatâd i ni wneud hynny. Mae'n annhebygol y byddwn yn gallu mynd â'ch cwyn yn ei blaen os na fyddwch yn llofnodi ac yn dyddio'r adran hon o'r ffurflen.

Sylwch y gall fod angen i ni drosglwyddo manylion eich cwyn i'r Cyngor dros Ragoriaeth Rheoleiddio Gofal Iechyd hefyd, y corff sy'n goruchwyllo gwaith pob rheoleiddiwr gofal iechyd y DU.

Cytunaf y gall y Cyngor Optegol Cyffredinol (y GOC) ddatgelu fy nghwyn ac unrhyw wybodaeth a roddaf mewn perthynas â hi i'r optegydd/optegwyr cofrestredig a enwir yn y ffurflen hon a/neu i'w cynrychiolydd cyfreithiol. Cytunaf hefyd y gall yr optegydd/optegwyr cofrestredig ddatgelu i'r GOC unrhyw wybodaeth sy'n angenrheidiol i'r GOC ystyried fy nghwyn.

Rwyf yn datgan bod yr holl wybodaeth rwyf wedi ei rhoi yn y ffurflen hon, hyd eithaf fy ngwybodaeth, yn gyflawn ac yn gywir.

Llofnod y claf neu'ch achwynydd

Dyddiad